# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Mair, mam Iesu

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Mair, mam Iesu

**Gwybodaeth Gefndirol**

- Dewisodd Duw Mair yn fam i'w fab, Iesu. Roedd Mair yn ferch ifanc ddibriod, ond dewisodd ymddiried yn llwyr yn Nuw.
- Roedd Mair yn pryderu am ei phlentyn fel unrhyw fam.
  Yn Luc 2:41-52 ceir stori am Iesu wedi ei wahanu oddi wrth ei rieni mewn gŵyl yn Jerwsalem.
- Roedd Mair gyda'i mab, Iesu, mewn priodas yn Cana, pan gyflawnodd ei wyrth gyntaf, sef troi dŵr yn win.

**Beth Ddigwyddodd**

- Roedd Mair yn gwylio pan oedd ei mab, Iesu, yn cael ei groeshoelio, yn dioddef ac yn marw.
- Siaradodd Iesu gyda'i fam pan oedd ar y groes. Gofynnodd iddi hi a'r disgybl oedd e'n ei garu (Ioan mae'n debyg) ofalu am ei gilydd.
- Dydy Mair, mam Iesu, ddim yn cael ei henwi fel un o'r gwragedd aeth i baratoi corff Iesu i'w gladdu nac yn un o'r rhai oedd yn dyst i'w atgyfodiad. Mae'r ffaith nad ydy hi'n cael ei henwi yn arwyddocaol – mae'n debyg ei bod hi gyda Ioan.
- Mae'r cyfeiriad olaf at Mair yn y Beibl yn sôn amdani yn gweddïo gyda'r disgyblion a gwragedd eraill, a hynny ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r nefoedd at Dduw.

**Diffiniad**

- Emosiwn: Mae emosiwn yn deimlad cryf wedi ei ddylanwadu gan y sefyllfa rydych ynddi neu'r bobl rydych gyda nhw.

**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Byddai Mair wedi profi amrywiaeth o emosiynau o'r eiliad y dywedodd yr angel wrthi ei bod yn mynd i gael babi, i wrando ar Iesu yn dysgu a phregethu, ei wylio yn marw ar y groes a chlywed ei fod wedi dod yn ôl yn fyw. Mae emosiynau yn rhan real o fywyd ac yn ein helpu i ddysgu am yr hyn rydyn ni'n ei werthfawrogi mewn bywyd.

**Ystyried**

- Sawl gair gwahanol elli di feddwl amdanynt i ddisgrifio'r gwahanol emosiynau brofodd Mair yn ystod penwythnos y Pasg cyntaf?
- Meddylia am adeg pan oeddet ti neu rywun rwyt yn ei adnabod yn teimlo'n drist iawn. Sut elli di helpu pobl pan maen nhw'n teimlo'n drist?
- Beth sy'n dy wneud di'n hapus? Ydy rhannu dy deimladau gydag eraill yn gwneud i ti deimlo'n hapusach? Pam?